




ASTUDIAETH ACHOS: TRIATHLON CYMRU

Author: Amanda Bennett, FairPlay Ltd

sportswales
chwaraeon cymru



Triathlon Cymru yw'r Corff Rheoli Cenedlaethol ar gyfer Triathlon yng Nghymru. Fel Corff Rheoli, mae ganddo dri phrif cyfrifoldeb – llywodraethu, perfformiad a datblygiad. Mae Triathlon Cymru yn gweithio i hybu rhagoriaeth ac i greu cyfleoedd i bawb gyflawni eu heriau triathlon personol.

Mae Triathlon Cymru, fel aelod o un o'r Gwledydd Cartref o sefydliad Triathlon Prydain, yn cadw at y weledigaeth a'r gwerthoedd sydd wedi'u hamlinellu gan Driathlon Prydain ar gyfer yr holl sefydliadau chwaraeon ac ar gyfer llywodraethu Triathlon. Mae crynodeb o'r rhain isod:

- ♦ rydyn ni'n rhoi lle canolog i bobl
- ♦ rydyn ni'n uchelgeisiol
- ♦ rydyn ni'n gynhwysol
- ♦ rydyn ni'n gwneud beth sy'n iawn



ROEDD EIN
HYMGYRCH
I BENODI
CYFARWYDDWYR
YN GYFLE
RHAGOROL I NI
GREU BWRDD
MWY AMRYWIOL.



PAM OEDD RAID I CHI NEWID STRWYTHUR EICH BWRDD?

Bryd hynny, yn 2017, roedd y Bwrdd yn cynnwys naw dyn gwyn a'n Prif Weithredwr, oedd yn fenyw. Roedden ni eisiau newid hyn gan fod angen i'r Bwrdd adlewyrchu ein haelodaeth a'n cyfranogwyr yn well. Roedden ni hefyd yn wynebu newidiadau ar y Bwrdd wrth i Gyfarwyddwyr unigol ddod i ddiwedd eu tymor gwasanaethu, oedd yn golygu bod gennym ni gyfanswm o bedwar lle gwag i'w llenwi.

Mae triathlon yn cefnogi cynhwysiant a chydaddoldeb oherwydd mai dyma'r peth iawn i wneud, felly roedd ein hymgyrch i benodi Cyfarwyddwyr yn gyfle rhagorol i ni greu Bwrdd mwy amrywiol.



WE INTERVIEWED
OVER A PERIOD
OF FOUR WEEKS
TO GIVE ALL
THE QUALITY
CANDIDATES AND
OUR INTERVIEW
PANEL ENOUGH
OPPORTUNITY
TO FIND THE
RIGHT PEOPLE.



SUT AETHOCH CHI ATI I WNEUD Y NEWIDIADAU HYN?

Fe wnaethon ni rannu gwybodaeth i aelodau am bob rôl ar y Bwrdd, gan eu gwahodd i ymgeisio — mae pob lle ar Fwrdd Triathlon Cymru yn cael ei sicrhau drwy gais. Fe wnaethon ni hysbysebu'n eang drwy'r gamp ond ni chawsom ymateb gwych, felly penderfynwyd agor y llefydd gwag i'r cyhoedd.

Fe wnaethon ni hysbysebu drwy Women on Boards, Acorn Recruitment, gwefannau chwaraeon a hefyd drwy rwydweithiau aelodau presennol ein Bwrdd. Hefyd anfonwyd yr wybodaeth at ein cysylltiadau ni ar draws gwahanol gymunedau. Roedden ni'n awyddus iawn i ddod o hyd i Gyfarwyddwyr iau neu o leiaf rywun a allai gyfrannu gwybodaeth am chwaraeon ieuenctid at y Bwrdd.

Defnyddiodd ein Prif Weithredwr bob cyfle mewn digwyddiadau cydraddoldeb ac amrywiaeth i hybu ein Bwrdd drwy rwydweithiau cydraddoldeb ac annog pobl i ymgeisio. Yn y diwedd cawsom bron i 40 o geisiadau ac roedd llawer o'r rhain o safon eithriadol uchel. Pan aethom ati i ddadansoddi sut

oedd yr ymgeiswyr wedi dod yn ymwybodol o'r llefydd gwag, gwelsom fod rhai wedi ymateb i rwydweithio ein Prif Weithredwr, roedd rhai wedi dod drwy Acorn ac roedd eraill wedi gweld y llefydd ar ein gwefan ni.

Gan fod cymaint o geisiadau, buom yn cyfwrdd am gyfnod o bedair wythnos i roi digon o gyfle i'r ymgeiswyr o safon ac i'n panel cyfwrdd ddod o hyd i'r bobl iawn. Er bod pedwar lle ar y Bwrdd, roedden ni eisiau manteisio ar y sgiliau oedd ar gael ac, yn y diwedd, penodwyd saith o bobl gyda thri'n cytuno i ymuno ag is-bwyllgorau. Roedd hyn yn cyflawni dau bwrpas pwysig. I ddechrau byddem yn cael defnyddio eu gwybodaeth a'u sgiliau. Hefyd, wrth iddynt ddatblygu dealltwriaeth ddyfnach o sefydliad Triathlon Cymru, efallai y bydd cyfleoedd yn y dyfodol iddynt ymuno â'r Bwrdd, gan gryfhau ein cynllun olyniaeth.

Cawsom arbenigedd hanfodol mewn meysydd cyfreithiol, chwaraeon ieuenctid, cymunedau difreintiedig, cydraddoldeb ac amrywiaeth, masnachol a chontractau.



PA WAHANIAETH MAE'R NEWIDIADAU HYN WEDI'U GWNEUD I'CH BWRDD?

I ddefnyddio chwaraeon modur fel rhyw fath o ddihareb, roedden ni wedi symud o gêr un i gêr pump. Hefyd gwelwyd bywyd ac egni newydd ymhlith aelodau presennol y Bwrdd. Daeth y Cyfarwyddwyr newydd â ffocws, egni a syniadau newydd. Hefyd roedden nhw'n edrych ar bethau mewn ffordd fodern a blaengar, gan gyfrannu methodolegau newydd at y gamp. Cafwyd her bositif ganddyn nhw er mwyn cynllunio ar gyfer y dyfodol.

Mae'r Bwrdd wedi newid yn ei agwedd at gynhwysiant hefyd ac rydyn ni nawr yn ystyried cydraddoldeb ac amrywiaeth fel rhan o'n trafodaethau a'n penderfyniadau. Mae hyn yn cynnwys persbectif iau.

Hefyd mae'r ymgeiswyr a wahoddwyd i'r is-bwyllgorau'n gwneud gwahaniaeth, gan gyfrannu sgiliau ac arbenigedd nodedig sy'n cefnogi'r sefydliad mewn meysydd fel cyfathrebu. Rydyn ni wedi gweld bod eu hymwneud â Thriathlon Cymru yn ychwanegu gwerth at eu profiad ac mae wedi gwella eu proffil proffesiynol.

Mae'n bwysig nodi ein bod wedi cadw gwybodaeth sylweddol am driathlon ar y Bwrdd, ac ymgysylltu sylweddol â'r gamp. Er mai sgiliau, arbenigedd ac amrywiaeth sydd wrth galon ein proses recriwtio, rydyn ni'n sicrhau bod o leiaf gyfran o'n Cyfarwyddwyr ni'n deall y gamp, o gymunedol i elitaidd. Mae hyn yn allweddol er mwyn cynnal cydbwysedd ar y Bwrdd.



PA EFAITH MAE STRWYTHUR NEWYDD Y BWRDD WEDI'I CHAEL AR Y SEFYDLIAD?


Efallai nad oedd yn glir i staff yn flaenorol sut oedd y Bwrdd yn ychwanegu gwerth at Driathlon Cymru. Ers sefydlu newidiadau i gyfansoddiad ein Bwrdd, mae llawer mwy o her a chyfraniad gan y Cyfarwyddwyr ac mae'r staff yn gweld ac yn gwerthfawrogi hynny. Ceir ymdeimlad hefyd o integreiddio cynyddol rhwng y staff a'r Bwrdd, gyda Chyfarwyddwyr yn mynychu digwyddiadau ac yn cefnogi staff.

Bellach mae gennym ni egni a sgiliau i greu a chynnal proffil proffesiynol a chynyddol fel sefydliad, a fydd yn cael effaith positif ar ein perthnasoedd, ac yn sicr gyda phartneriaid masnachol. Rydyn ni wedi gweld cynnydd yn hyder rhanddeiliaid, gan gynnwys Triathlon Prydain, sydd eisiau mabwysiadu ein harfer gorau wrth recriwtio Bwrdd, a chyrrff y Gwledydd Cartref.

Hefyd rydyn ni wedi gallu dod o hyd i effeithlonrwydd gweithredol wrth i Gyfarwyddwyr

herio ffyrdd o weithio'n adeiladol a chynnig syniadau newydd. Mae hyn wedi helpu i greu cyllid y gallwn ni ei ailfuddsoddi yn y gamp er lles yr aelodau a'r cyfranogwyr. Mae sawl aelod o'n Bwrdd wedi derbyn rôl ar is-bwyllgorau'r Gwledydd Cartref erbyn hyn, i sicrhau bod y Ffederasiwn yn datblygu'r gamp yn y ffordd briodol ar gyfer Triathlon ledled Prydain.

Un o'r ffactorau mwyaf dylanwadol oedd y ffordd y cydweithiodd y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr i greu newid. Er y byddai'r naill neu'r llall wedi gallu gwneud gwahaniaeth ar ei ben ei hun, roedd yr effaith yn llawer mwy pwerus ar y cyd. Hefyd roedd y Bwrdd yn gefnogol iawn a heb ei gaethiwo gan draddodiad. Nid oedd eisiau ticio bocsys yn unig – ein meddylfryd ni yw adlewyrchu'r bobl rydyn ni'n eu cynrychioli a defnyddio profiadau o sylfaen eang i sbarduno arloesi a newid ar gyfer triathlon a'r sector chwaraeon ehangach.



sportwales
chwaraeon cymru

SPORT WALES

Sophia Gardens, Cardiff CF11 9SW

☎ 029 2033 4972

✉ 0300 300 3111

🌐 www.sport.wales